Annwyl Riant/Warcheidwad,

Rhoddwyd cyfle i'r ysgol gymryd rhan mewn prosiect a fydd yn rhedeg ar y cyd rhwng ysgolion a Heddlu Dyfed-Powys. Menter sir gyfan fydd hon ar draws pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Ymgyrch Endeavour yn fodd o rannu gydag ysgolion, cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf, ddigwyddiad yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc yr adroddwyd i'r heddlu eu bod ar goll.

Bydd Ymgyrch Endeavour yn sicrhau bod aelod o staff yr ysgol, sef Oedolyn Allweddol, yn cael ei hyfforddi i ddefnyddio'r wybodaeth a rannwyd gyda nhw ynghylch y digwyddiad lle bu plentyn ar goll i sicrhau bod y plentyn yn cael cefnogaeth ddigonol wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Rydym yn awyddus i gynnig y gefnogaeth orau posibl i'n holl ddisgyblion ac rydym yn credu y bydd hwn yn eithriadol o fuddiol i bawb sy'n rhan ohonno.

Llofnod

E. Davies

Pennaeth